Datganiad Black Lives Matter (Cymeradwywyd gan y Bwrdd ar y 24 Gorffennaf 2020)

Ar 2 Mehefin 2020 cymerodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ran yn nigwyddiad #BlackoutTuesday drwy gyfrwng ein cyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram mewn cefnogaeth i'r ymgyrch Black Lives Matter. Nod y digwyddiad hwnnw oedd rhoi'r amser fyddai fel arfer yn cael ei dreulio ar gyfryngau cymdeithasol i addysgu ein hunain ynghylch anghyfiawnder ar sail hil.

O ddysgu mwy am yr ymgyrch a thrwy ddilyn y drafodaeth gyhoeddus dros yr wythnosau diwethaf, mae wedi dod yn amlwg i ni fod ein polisïau a'n gweithredoedd yn syrthio'n brin o'r gwerthoedd y dylem eu harddel wrth ddatgan ein bod yn cydsefyll â phobl Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn erbyn yr anghyfiawnder maent yn ei wynebu.

Rhaid i hyn newid. Rhaid i *ni* newid os ydym am oresgyn hiliaeth, ac mae hynny'n golygu ymgymryd o ddifri â phroses o hunan-addysgu a hunan-ystyried, a gweithredu. Rhaid hefyd gweld perthnasedd cyfiawnder ar sail hil i holl ystod gweithgareddau a swyddogaethau'r Llyfrgell, gan gynnwys datblygiad ein casgliadau, ein gwaith hyrwyddo a dehongli, ein polisïau recriwtio, yr hyfforddiant a roir i staff a'n dulliau o ymgynghori yn gyhoeddus. Bydd ein hymrwymiad i hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein Cynllun Strategol 2021-26, a'i gynlluniau gweithredu, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Wrth wneud hynny, mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio â phobl Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol sy'n byw yng Nghymru heddiw, ac rydym eisoes yn ymgynghori â Chyngor Hil Cymru ynghylch y ffordd ymlaen.

Ymrwymwn felly i ymgymryd â'r gwaith hwn, a'i gyflawni gydag ysbryd a phwrpas sy'n adlewyrchu dyfnder ein dyhead i sicrhau bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn sefydliad sydd wir yn cofleidio a dathlu amrywiaeth pobl Cymru heddiw.